# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2312 |
| Committee | Pwllgor Craffu Addysg a Dysgu |
| Date | 30/11/2021 |
| Attendees | Cynghorwyr Haydn Trollope (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Derrick Bevan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Day (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr D. Lyn Elias (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Stewart Healy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John C. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd John P. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keri Rowson (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Bob Summers (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr David Wilkshire (Aelod Pwyllgor)<br>Mr. Tim Baxter (Co-Optee)<br>Mr. Tim Pritchard (Co-Optee)<br>Lynn Phillips (Swyddog)<br>Michelle Jones (Swyddog)<br>Claire Gardner (Swyddog)<br>Joanne Sims (Swyddog)<br>Luisa Munro-Morris (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Monitor)<br>Cynghorwyr Joanne Collins (Monitor)<br>Pob Cynghorydd (Monitor)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Richard Crook (Notify)<br>Rhian Hayden (Notify)<br>Damien McCann (Notify)<br>Michelle Morris (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5630 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5631 |
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr G. Collier, M. Day, L. Elias, J.P. Morgan a D. Wilkshire.<br><br>**<u>Aelod Cyfethol</u>**<br>T. Baxter<br><br>Rheolwr Gwasanaeth Trawsnewid Addysg a Newid Busnes<br>Rheolwr Gwella Strategol Addysg<br><br>**<u>Croeso</u>**<br><br>Estynnodd y Cadeirydd groeso i Julia Carmichael, a benodwyd yn ddiweddar yn Rheolwr Gwasanaeth Cynhwysiant i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5632 |
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5633 |
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2021.<br><br>**<u>Eitem 10 – Blaenraglen Gwaith – 30 Tachwedd 2021</u>**<br><br>Yng nghyswllt y cais am wybodaeth parthed nifer y lleoedd gwarged i gael eu cynnwys yn adroddiad Rheoli Lleoedd Disgyblion a'r Stad Ysgolion 2020/21, dywedodd Aelod na chynhwyswyd gwybodaeth yn ymwneud â nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion cynradd, ac mai dim ond gwybodaeth am ysgolion uwchradd a roddwyd.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5680 |

| | |
|---|---|
| Item Title | Dalen Weithredu – 19 Hydref 2021 |
| Summary | Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2021, yn cynnwys:-<br>**EItem 8 – Gwaharddiadau Disgyblion**<br><br>Gofynnodd Aelod am eglurhad o’r wybodaeth a roddwyd yng nghyswllt data ar gyfer gwaharddiadau plant sy’n derbyn gofal. Byddai’r Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant yn ceisio cael eglurhad os yw hyn yn ddata cyfredol a rhoi manylion pellach ar yr wybodaeth a roddwyd ynghylch rhesymau ‘eraill’ am waharddiadau e.e. defnyddio ffonau symudol mewn ystafelloedd dosbarth.<br><br>Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y gellid rhoi mwy o fanylion dienw am achosion penodol ynghylch gwaharddiadau i roi peth gwybodaeth gefndir. Mae pryder cynyddol yng nghyswllt negeseuon cyfryngau cymdeithasol ond sicrhaodd Aelodau eu bod yn cefnogi ysgolion i fod mor wyliadwrus ag sydd modd. Lluniwyd llythyr i rieni yn eu cynghori i fod yn neilltuol o wyliadwrus am negeseuon cyfryngau cymdeithasol eu plant, gan fod hyn yn cael effaith ar lesiant ysgolion a staff.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol i’r uchod, i nodi’r ddalen weithredu |

| Item ID | 5666 |
|---|---|
| Item Title | Sefyllfa Diweddaru COVID mewn Addysg ac ar draws y Stad Ysgolion |
| Summary | Ar wahoddiad y Cadeirydd rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg ddiweddariad llafar byr ar y sefyllfa addysg ac ar draws y stad ysgolion mewn ymateb i COVID-19.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod cyfraddau amledd cyffredinol Blaenau Gwent yn parhau i ostwng a’u bod ar hyn o bryd yn 412 fesul 100,000 o boblogaeth a mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn 20fed yng Nghymru. Mae hon yn sefyllfa sy’n gwella er fod Tîm Rheoli Digwyddiadau Gwent yn cytuno fod y risg rhanbarthol yn parhau’n uchel ar gyfer ysgolion ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae nifer yr achosion positif yn 58 ar hyn o bryd ac mae achosion gweithlu yn gyffredinol sefydlog gyda llai na 40 o staff wedi effeithio arnynt ar draws holl ysgolion Blaenau Gwent. Dywedodd fod dwy ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd wedi cyflwyno elfennau o ddysgu cyfunol a bod hyn yn cael ei adolygu’n barhaus i sicrhau bod dysgu wyneb i wyneb llawn yn dychwelyd i’r lleoliadau hynny pan fydd yn ddiogel.<br><br>Bu nifer o gyhoeddiadau gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar ynghylch yr amrywyn Omicron, yn bennaf yn ymwneud â geiriad cryfach ar gyfer defnyddio gorchuddion wyneb. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr nad oes unrhyw newidiadau sylweddol i ysgolion Blaenau Gwent gan fod staff a disgyblion uwchradd eisoes wedi bod yn defnyddio gorchuddion wyneb dan do. |

| | |
|---|---|
| | Hysbysodd Aelodau ein bod yn dal i ddisgwyl cyngor cenedlaethol am ystyriaeth cynnig ail ddogn o'r brechlyn i rai 12 i 15 oed. Os symudir ymlaen â hyn, byddai cyfathrebu gydag ysgolion gan y byddai hyn yn effeithio ar ddysgwyr mewn lleoliadau uwchradd.<br><br>Daeth i ben drwy ddweud fod hyn yn gyffredinol yn sefyllfa sy'n gwella ond mae achos pryder yn parhau, yn neilltuol am yr amrywyn newydd Omicron sy'n dod i'r amlwg. |

| Item ID | 5667 |
|---|---|
| Item Title | Cyfarwyddiaeth Addysg – Diweddariad Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a'r Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau i adolygu'r cynnydd ar ddiwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol ac adnewyddu polisi cysylltiedig.<br><br>Siaradodd Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn adroddiad rhagorol ond teimlai y dylid amlygu yn yr adroddiad fod diwygiadau ADY yn anelu ar gyfer y gorau i bob disgybl yn cynnwys y mwy galluog a thalentog. Cytunodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant gyda sylwadau'r Aelod ac esboniodd gyda diwygiadau'r ADY na fyddai pobl ifanc mwy galluog a thalentog o reidrwydd yn derbyn Cynllun Datblygu Unigol a phan yn edrych ar ddarpariaeth gyffredinol a thargedig mae angen iddynt sicrhau fod yr ymarfer sy'n digwydd mewn ysgolion yn galluogi plant mwy galluog i ffynnu. Maent yn gweithio gyda'r Gwasanaeth ADY a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol i nodi'n glir y cyfrifoldebau ar gyfer pob un o'r ardaloedd hyn i sicrhau pan ânt i ysgolion nad ydynt ddim ond yn edrych ar gefnogi'r bobl ifanc hynny a all fod yn cael trafferthion, ond hefyd ar gefnogi disgyblion sydd wirioneddol angen cael eu gwthio i gael y profiadau hynny a gafodd eu cyfoethogi.<br><br>Dywedodd Aelod y cafodd y Ddeddf ei gweithredu'n rhannol ers mis Medi 2021 a holodd os y cafodd yr holl gyngor ac arweiniad eu defnyddio i sicrhau fod y cod yn cael ei weithredu'n gywir. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant y cafodd canllawiau yn ddiweddar ac y cynhaliwyd hyfforddiant ar gyfer penaethiaid ysgolion ac arweinwyr awdurdodau lleol. Fodd bynnag, bu llawer o bryderon posibl am y canllawiau, yn neilltuol ganllawiau i rieni gan nad oedd hyn yn cyd-daro gyda'r negeseuon a roddodd Llywodraeth Cymru yn flaenorol. Codwyd pryderon a disgwylir ymateb gan Lywodraeth Cymru i gadarnhau os mai hyn yw'r canllawiau pendant.<br><br>Dywedodd Aelod fod nifer o ysgolion yn gweithio'n dda iawn ar fathemateg a dywedodd fod disgyblion mathemateg yn cael eu mentora mewn rhai ysgolion, a theimlai y gellid ystyried briffiad rywbryd yn y dyfodol i edrych ar |

| | |
|---|---|
| | yr hyn mae ysgolion yn ei wneud yng nghyswllt mathemateg. Soniodd hefyd am weithio ysgol i ysgol a sut mae cydweithio rhwng ysgolion yn gweithio'n dda.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn yr adroddiad, y dogfennau cysylltiedig a'r llwybr gweithredu a gynigir. |

| Item ID | 5668 |
|---|---|
| Item Title | Presenoldeb Ysgolion |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau graffu ar ddata presenoldeb ar lefel ysgolion Cynradd ac Uwchradd Blaenau Gwent ar gyfer blwyddyn academaidd 2020-21 a hanner tymor cyntaf blwyddyn academaidd 2021-22.<br><br>Siaradodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at ostwng gwaharddiadau a theimlai na fyddai gostwng gwaharddiadau yn helpu presenoldeb ac y gall ei lesteirio, teimlai ei bod yn bwysig cadw rheolaeth o ysgolion, yn arbennig ar ôl dychwelyd ar ôl COVID, gan fod angen i ddisgyblion deimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mai dim ond os yw popeth arall wedi methu y dylai penaethiaid ysgolion ddefnyddio gwaharddiadau. Holodd hefyd am ddata ar gyfer disgyblion sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref.<br><br>Yng nghyswllt gostwng gwaharddiadau, teimlai'r Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant fod yr adroddiad yn cyfeirio at uchelgais yn ymwneud â mynd i mewn yn gynnar ar atal i sicrhau fod pobl ifanc yn cael eu cefnogi cyn cyrraedd pwynt argyfwng a gwaharddiadau posibl. Yng nghyswllt y rhifau sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref, bu cynnydd a byddai'r Swyddog yn rhoi'r union ffigurau i Aelodau maes o law. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio mwy ar ddysgwyr yn y cartref ac wedi cynnal adolygiad o'r gefnogaeth i alluogi ymyriad awdurdodau lleol i wirio prosesau a roddodd rhieni ar waith.<br><br>Dywedodd Aelod ei bod yn bwysig gwybod y rhesymau am ddiffyg presenoldeb a bod Swyddogion yn awr yn canolbwyntio ar hyn. Teimlai fod Blaenau Gwent yn perfformio'n dda ar bresenoldeb disgyblion yng nghyswllt y ffigurau cenedlaethol, fodd bynnag bu gostyngiad ym mhresenoldeb disgyblion ym mis Gorffennaf a theimlai y gallai hyn fod oherwydd fod rhieni wedi bod yn mynd â'u plant ar wyliau'n gynnar a holodd os y cynhaliwyd astudiaeth genedlaethol ar y mater hwn.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant fod y gostyngiad mewn presenoldeb disgyblion ar gyfer mis Gorffennaf yn debyg yn ganlyniad rhieni'n manteisio ar lacio cyfyngiadau COVID i gymryd gwyliau. Mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu adroddiad a rydym yn dal i ddisgwyl |

| | |
|---|---|
| | hynny a theimlai y byddai'n ddiddorol gweld os rhoddwyd yr un rheswm ar draws Cymru ar gyfer y gostyngiad ym mhresenoldeb disgyblion. Dywedodd na chaniateir iddynt ddirwyo rhieni ar hyn o bryd gan fod angen i gefnogi teuluoedd a'u llesiant. Fodd bynnag mae rhai pobl ifanc oedd yn absennol yn aml cyn COVID a bod rhai teuluoedd wedi defnyddio COVID fel rheswm dilys i beidio anfon eu plant i'r ysgol ac na fedrid herio'r rhesymau hynny.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef derbyn yr adroddiad fel y cafodd ei ddarparu. |

| Item ID | 5669 |
|---|---|
| Item Title | Adroddiad Ymgynghori Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10-mlynedd Blaenau Gwent |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Rheolwr Gwasanaeth Trawsnewid a Newid Busnes a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau i graffu ar ddrafft Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10-mlynedd Blaenau Gwent gan roi barn, sylwadau ac ymatebion yn unol â'r broses ymgynghori.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Os yw Llywodraeth Cymru yn dymuno cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, dywedodd Aelod y dylent ystyried gwneud y Gymraeg yn orfodol mewn ysgolion a darparu adnoddau ychwanegol i hwyluso hyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg fod darparu dysgu Cymraeg eisoes yn elfen statudol yn y cwricwlwm a theimlai ei bod yn hollbwysig i gyflwyno darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg mor agos ag sy'n bosibl o fewn y system addysg.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod yng nghyswllt cynnydd ar ddatblygiadau ar gyfer yr ysgol Gymraeg yn Nhredegar, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg fod cynnydd yn mynd yn dda, roedd peth gwaith ymchwilio ar y safle arfaethedig wedi rhoi sicrwydd fod y safle yn addas ar gyfer ei ddatblygu a'u bod ar hyn o bryd yn dal ar y trywydd i gael yr ysgol newydd ar gael o fis Medi 2023. Gobeithiai y gellid ystyried ymweliadau safle ar ôl y pandemig ar gyfer Aelodau i weld rhai o'r arferion sy'n mynd rhagddynt o fewn ysgolion.<br><br>Dywedodd Aelod fod y rhan fwyaf o ysgolion ym Mlaenau Gwent yn defnyddio Cymraeg achlysurol drwy gydol yr ysgol a chredai fod pob ysgol uwchradd yn addysgu'r Gymraeg, o flwyddyn 7 mae opsiynau i ddisgyblion rhwng Cymraeg llawn-amser neu Gymraeg cwrs byr fel bod pob plentyn yn sefyll arholiad Cymraeg. Dywedodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiad fod disgwyl i ysgolion ddefnyddio Cymraeg achlysurol a bod pob person ifanc o'r dosbarth meithrin lan yn cael gwersi Cymraeg.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg ei bod yn bwysig cydnabod yn y ddogfen Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y flaenoriaeth am y Gymraeg fel |

| | |
|---|---|
| | ail iaith a hyrwyddo hynny ymysg ysgolion cyfrwng Saesneg i gynyddu faint o ddefnydd a wneir o'r Gymraeg mewn lleoliadau ysgol.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig fod plant sy'n mynychu ysgolion Cymraeg yn cael eu cefnogi. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg fod gallu rhieni i fedru cyfathrebu yn Gymraeg yn y cartref yn ystyriaeth bwysig i ddysgwyr fedru defnyddio'r iaith mewn ffordd trochi. Dywedodd fod elfen o ddarpariaeth Dysgu Oedolion y Gymuned oedd angen ei gryfhau yn y dyfodol i sicrhau fod gan bobl y sgiliau cywir i helpu i gefnogi eu plant drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn y drafft Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10-mlynedd. |

| Item ID | 5670 |
|---|---|
| Item Title | Rheoli Lleoedd Disgyblion a'r Stad Ysgolion 2020/21 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a'r Rheolwr Gwasanaeth Trawsnewid Addysg a Newid Busnes a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau graffu ar reoli lleoedd disgyblion a'r stad ysgolion, drwy gydol sesiwn academaidd 2020/21.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Holodd Aelod am y data ar enedigaethau byw. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg nad yw'r Cyngor hyd yma wedi derbyn data genedigaethau byw 2020/21 gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Yng nghyswllt cynllunio ar gyfer lleoedd ysgol maent hefyd yn edrych ar ddadansoddi tueddiadau gan fod rhai ysgolion yn derbyn mwy o geisiadau. Mae'r cyfraddau genedigaethau a'r dadansoddiad tueddiadau yn rhoi darlun cyffredinol sy'n dangos amcanestyniadau tebygol ar gyfer lleoedd gwag ar draws y stad ysgolion. Dywedodd eu bod yn disgwyl i gyfanswm y boblogaeth disgyblion i gynyddu a'u bod hefyd yn dechrau gweld rhai tueddiadau cadarnhaol ynghylch mewnfudo i'r fwrdeistref sirol.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at leoedd gwag ac roedd yn siomedig na roddwyd gwybodaeth ar gyfer ysgolion cynradd a gofynnodd i hyn fod yn bwynt gweithredu ar gyfer y cyfarfod nesaf.<br><br>Eglurodd y Cyfarwyddwr Addysg fod yr wybodaeth yn y tabl ar dudalen 325 yn cyfeirio at ysgolion uwchradd. Dywedodd y paratowyd tabl tebyg ar gyfer y sector cynradd a byddai'n sicrhau y caiff hyn ei rannu gydag Aelodau. Roedd lleoedd gwag yn y sector cynradd oddeutu 29% sydd wedi gostwng yn sylweddol erbyn hyn.<br><br>Cyfeiriodd yr Aelod at arolygon cyflwr sy'n dangos fod cyflwr ysgolion Blaenau Gwent wedi gwella'n sylweddol iawn dros gyfnod. Cyfeiriodd at |

| | |
|---|---|
| | ddadansoddiad tueddiadau a holodd os y caiff gwaith ei wneud gyda rhieni i rannu’r gwelliannau a wnaed i ysgolion i roi hyder iddynt anfon eu plant i ysgolion Blaenau Gwent, i ostwng allfudo gan fod nifer disgyblion yn effeithio ar gyllid ysgolion. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg fod y data yn cynnwys dadansoddiad tueddiadau a’u bod yn gweithio gyda rhieni i roi sicrwydd a hyder iddynt, wrth i ddysgwyr bontio o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd, bod y lleoliadau uwchradd mewn sefyllfa dda o safbwynt ansawdd yr amgylchedd dysgu. Dywedodd fod blwyddyn 7 Cymuned Ddysgu Abertyleri eleni wedi derbyn 160 o ddysgwyr a fu’n welliant sylweddol yn y galw am leoedd i’r ysgol.<br><br>Holodd Aelod sut y caiff Ysgol Penycwm a Chanolfan yr Afon eu hasesu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg y cynyddwyd capasiti Ysgol Penycwm yn ddiweddar i 175 a bod capasiti Canolfan yr Afon yn 64. Fel ysgolion arbennig, caiff y dysgwyr o fewn y lleoliadau hynny eu lleoli drwy’r Panel Anghenion Dysgu Ychwanegol ac mae’n seiliedig ar anghenion a gofynion dysgwyr.<br><br>Yng nghyswllt Cymuned Dysgu Ebwy Fawr, dywedodd y Cadeirydd fod y data ar gyfer Ionawr 2022 yn 992 ac wedi gostwng i 943 ar gyfer Ionawr 2028 a chododd bryderon fod y data yn gostwng gyda’r holl ddatblygiadau preswyl newydd ym Mlaenau Gwent. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg fod y ffigurau yn seiliedig ar y boblogaeth ddisgyblion y disgwylir iddynt ddod drwy’r system, sy’n dangos cwymp bychan yn yr ardal honno. Byddai’r datblygiadau tai newydd sy’n digwydd yn gwneud iawn am hyn yn y dyfodol. Byddai’r cyfnod uwchradd yn cyrraedd capasiti yn y dyfodol agos ond mae’n anodd ar hyn o bryd i wneud cyfrifiadau ar boblogaethau disgyblion gyda datblygiadau tai yn dal i fod mewn camau cymharol cynnar o ddatblygiad. Byddai adolygiad blynyddol o’r niferoedd ond mae’r Cyfarwyddwr yn hyderus y bydd Cymuned Ddysgu Blaenau Gwent yn cyrraedd ei gapasiti dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.<br><br>Derbyniodd yr Aelod sylwadau’r Cyfarwyddwr ond ailadroddodd ei bryderon na fyddai Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr gyda llai o gapasiti wedyn yn medru darparu ar gyfer y nifer o ddisgyblion.<br><br>Dywedodd Aelod fod y Gyfarwyddiaeth Addysg yn llawn ymwybodol o’r sefyllfa yng nghyswllt Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr a theimlai’n hyderus y byddent yn edrych ar rifau’r dyfodol a’r ddarpariaeth y gall yr ysgol ei darparu yn y dyfodol.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod tri allan o’r pedwar lleoliad yn dechrau bod â phroblemau digonolrwydd yn dod i’r amlwg ac fel canlyniad mae angen buddsoddiad yn y stad ysgolion. Dywedodd fod yn awr lai o symud allan o’r sir i leoliadau dysgu uwchradd sydd yn gadarnhaol iawn ac mae’n galonogol nodi bod dysgwyr Blaenau Gwent yn derbyn eu haddysgu a’u dysgu mewn lleoliadau ym Mlaenau Gwent.<br><br>Teimlai’r Cadeirydd y dylai pob Cyngor hyrwyddo ysgolion Blaenau Gwent a hysbysu rhieni pa mor dda yw addysg yn ysgolion ym Mlaenau Gwent. |

| | |
|---|---|
| | CYTUNODD y Pwyllgor argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2; sef bod y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu wedi ystyried yr adroddiad a rhoddodd sylwadau am y prosesau monitro ac adrodd presennol. |

| Item ID | 5671 |
|---|---|
| Item Title | Blaenraglen Gwaith |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cadeirydd Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd fod y Flaenraglen Gwaith ar gyfer y cyfarfod ar 1 Chwefror 2022 yn sylweddol a chynigiodd y dylid trefnu cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu i ystyried Adroddiad Perfformiad y Gwasanaeth Ieuenctid, yr adroddiad Adfer ac Adnewyddu ac Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2021 y Gyfarwyddiaeth Addysg.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef bod Blaenraglen Gwaith y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu ar gyfer 1 Chwefror 2022 yn ystyried yr adroddiadau dilynol:-<br>• Cynnydd Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a throsolwg o'r prosiect addysg<br>• Polisi Derbyn Ysgolion ar gyfer Addysg Feithrin ac Addysg Statudol<br>• Strategaeth TGCh Addysg<br><br>a CHYTUNWYD YMHELLACH y dylid trefnu cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu i ystyried yr adroddiadau dilynol:-<br><br>• Adroddiad Perfformiad Gwasanaeth Ieuenctid<br>• Adroddiad Adferiad ac Adnewyddu<br>• Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2021 y Gyfarwyddiaeth Addysg |